DESIGN COMMISSION FOR WALES
COMISIWN DYLUNIO CYMRU

# DISGRIFIAD O’R RÔL
# CYNGHORYDD DYLUNIO

Mae Comisiwn Dylunio Cymru yn chwilio am unigolyn o safon uchel ar gyfer y rôl Cynghorydd Dylunio, i ymuno â’u tîm bach sydd wedi'i leoli yng Nghaerdydd ac sy'n gwasanaethu Cymru gyfan.

| | |
|---|---|
| **Teitl:** | Cynghorydd Dylunio |
| **Cyflogir gan:** | Comisiwn Dylunio Cymru (DCFW LTD) |
| **Yn atebol i’r:** | Prif Weithredwr |
| **Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau:** | Erbyn 5pm ddydd Mawrth 15 Medi 2026 |
| **Dull cyflwyno:** | CV a llythyr eglurhaol dros e-bost at connect@dcfw.org |
| **Cyfweliadau i'w cynnal:** | 22/23 Medi 2026<br>Comisiwn Dylunio Cymru, Llawr 4, Adeiladau Cambrian, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd, CF10 5FL |

**Y Rôl**

Mae'r Cynghorydd Dylunio yn chwarae rhan allweddol yng ngwaith Comisiwn Dylunio Cymru – drwy arwain y gwaith o adolygu dyluniadau, darparu hyfforddiant, ymateb i ymgynghoriadau, paratoi deunydd ysgrifenedig a helpu i gynnal digwyddiadau. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn angerddol dros ddylunio a chreu lleoedd da a'r cyfraniad y gallant ei wneud at ansawdd bywyd a gwerth cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r rôl hon yn canolbwyntio ar sicrhau bod dylunio a chreu lleoedd da yn bethau sy’n cael eu deall, eu cydnabod, eu hyrwyddo a'u gweithredu.

Fel Cynghorydd Dylunio byddwch yn weithiwr proffesiynol credadwy sydd â phrofiad o weithio yn yr amgylchedd adeiledig, yn ddelfrydol ym maes dylunio trefol, pensaernïaeth a/neu gynllunio. Byddwch yn gallu cyfleu a hyrwyddo pwysigrwydd dylunio da ar gyfer yr amgylchedd adeiledig yn effeithiol ar draws sectorau a disgyblaethau ac ymhlith penderfynwyr. Byddwch yn meddu ar yr hyder a'r sgiliau cyfathrebu sydd eu hangen i arwain rhaglenni hyfforddi ac ymgysylltu ar gyfer awdurdodau lleol, y sector preifat a'r trydydd sector a chynulleidfaoedd amlddisgyblaethol eraill ledled Cymru. Yn y rôl Cynghorydd Dylunio byddwch yn cefnogi ystod uchelgeisiol gyfredol Comisiwn Dylunio Cymru o fentrau, yn ogystal â datblygu a gweithredu eich syniadau creadigol wedi'u targedu eich hun ar gyfer ysgogi ansawdd dylunio ar draws sectorau'r amgylchedd adeiledig yng Nghymru.

Dros y ddwy flynedd nesaf, rydym yn canolbwyntio'n benodol ar gefnogi ansawdd dylunio datblygiadau tai fforddiadwy a hyrwyddo datblygiadau safleoedd llai/mewnlenwi sydd wedi'u cynllunio'n dda mewn trefi ac aneddiadau presennol. Dyma gyfle gwych i fod yn rhan o gamau cyntaf y mentrau hyn. Bydd sgiliau a phrofiad yn y meysydd hyn yn arbennig o berthnasol.

Mae Cynghorwyr Dylunio yn chwarae rhan bwysig yn y tîm bach o staff a rhaid iddynt feddu ar sgiliau trefnu, cyfathrebu a gweithio mewn tîm rhagorol. Mae Comisiwn Dylunio Cymru yn gwasanaethu Cymru gyfan a bydd disgwyl i'r Cynghorydd Dylunio deithio ledled Cymru (a thu hwnt yn ôl yr angen), gan gynnwys aros dros nos, yn ôl yr angen er mwyn cyflawni cyfrifoldebau'r rôl.

**Cyfrifoldebau allweddol**

- Arwain y gwaith o drefnu'r gwasanaeth adolygu dyluniadau a'i hyrwyddo i ddefnyddwyr presennol a darpar ddefnyddwyr. Bydd hyn yn cynnwys ymgysylltu'n gynnar ag awdurdodau lleol, hyrwyddwyr cynlluniau a chleientiaid i ganfod eu hanghenion, cysylltu â'n panel o arbenigwyr a gwneud trefniadau ar gyfer yr adolygiad, cymryd rhan mewn cyfarfodydd adolygu, a llunio sylwadau swyddogol y Comisiwn ar ffurf adroddiadau adolygu dyluniad.
- Chwarae rhan allweddol yn y gwaith o gynhyrchu cylchlythyr Creu Lleoedd Cymru, gan gynnwys penderfynu ar bynciau, nodi cyfranwyr a golygu erthyglau mewn cydweithrediad â'n Swyddog Cyfathrebu.

- Ymchwilio i arferion gorau a thystiolaeth o werth a manteision dylunio da a’u rhannu, gan gynnwys ar ffurf seminarau, cyhoeddiadau, cyngor ac erthyglau ar y wefan.
- Cynnal a gwella’r gydberthynas â rhanddeiliaid presennol a defnyddio eich gwybodaeth a'ch menter i ddatblygu rhai newydd o fewn y diwydiannau dylunio a datblygu, gan gynnwys â chleientiaid, awdurdodau lleol, sefydliadau proffesiynol ac aelodaeth, Llywodraeth Cymru ac eraill.
- Rhoi adborth ar ymgynghoriadau ac ymholiadau pan fyddant yn codi.
- Datblygu a chyflwyno hyfforddiant pwrpasol i sefydliadau megis awdurdodau cynllunio lleol, aelodau, a chymdeithasau tai.
- Mabwysiadu ffrydiau gwaith sy'n ymwneud â hyrwyddo dylunio da o'r camau cynharaf gyda darparwyr tai fforddiadwy a hyrwyddo safleoedd tai bychan o fewn aneddiadau presennol.
- Datblygu a chyflawni prosiectau sy'n cyd-fynd â chynllun strategol Comisiwn Dylunio Cymru a'r Rhaglen Lywodraethu, gan gynnwys rheoli adnoddau a’r rhaglen brosiectau.
- Trefnu a chyflwyno gweithdai ar bynciau ym meysydd dylunio, cynllunio a chreu lleoedd.
- Cyfrannu at waith Comisiwn Dylunio Cymru mewn perthynas ag adfywio canol trefi a chreu lleoedd, gan gynnwys rhoi sylwadau ar gynlluniau creu lleoedd, darparu canllawiau a chefnogi awdurdodau lleol.

**Dyletswyddau ychwanegol**

- Cynorthwyo gyda’r gwaith o ddatblygu gwasanaethau a rhaglenni Comisiwn Dylunio Cymru a'u darparu yn unol ag amcanion strategol a chorfforaethol y Comisiwn.
- Cysylltu ag aelodau'r tîm a'r Panel Adolygu Dylunio yn ôl yr angen.
- Cysylltu â chyrff allanol i wella a chefnogi partneriaethau presennol a datblygu rhai newydd.
- Lle bo'n briodol, gweithio'n agos gyda'r Rheolwr Swyddfa i ddiogelu, rheoli a rhoi cyfrif am gyllidebau ac arian prosiectau.
- Cadw cofnodion, dogfennaeth a systemau adrodd effeithiol ar gyfer defnydd mewnol ac allanol.
- Paratoi ar gyfer cyfarfodydd/digwyddiadau Comisiwn Dylunio Cymru a’u mynychu.

Bydd holl ddyletswyddau'r Cynghorydd Dylunio yn cael eu cyflawni mewn ymgynghoriad agos â'r Prif Weithredwr.

**Priodoleddau hanfodol**

- Angerdd dros greu lleoedd a dealltwriaeth o bwysigrwydd dylunio da.
- Gwybodaeth a phrofiad o ddisgyblaethau perthnasol yn yr amgylchedd adeiledig, gan gynnwys pensaernïaeth, dylunio trefol a thirlunio, adfywio, trafnidiaeth/symudedd a thai.
- Dealltwriaeth o greu lleoedd yng nghyd-destun Cymru, gan gynnwys heriau gwledig a threfol.
- Greddf i feithrin cydberthnasau ac ennyn brwdfrydedd eraill.
- Y gallu i ddadansoddi, dehongli, cyflwyno a chyfleu gwybodaeth yn effeithiol i ystod o gynulleidfaoedd.
- Ymwybyddiaeth o bolisi a strategaethau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys Polisi Cynllunio Cymru, y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol sy'n dod i'r amlwg, polisiau perthnasol ar lefel cenedlaethol a lleol, yn ogystal â deddfwriaethau arwyddocaol eraill megis Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Ddeddf Teithio Llesol.
- Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o arferion cynllunio, rheoli datblygu ac adfywio awdurdodau lleol yng Nghymru.
- Dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o bwysigrwydd datblygu cynaliadwy.
- Dealltwriaeth o'r sector eiddo masnachol a datblygu.
- Sgiliau dadansoddol rhagorol a'r gallu i arfer barn gadarn.
- Y gallu i feddwl a gweithredu'n strategol er mwyn dylanwadu'n gadarnhaol a chyfrannu gwerth ychwanegol.

**Sgiliau hanfodol**

- Profiad mewn disgyblaethau dylunio amgylchedd adeiledig megis dylunio trefol/ pensaernïaeth/ tirlunio/ datblygu
- Sgiliau cyfathrebu eithriadol yn ysgrifenedig ac ar lafar.
- Sgiliau trefnu a chyflwyno eithriadol.
- Effeithlon, brwdfrydig a'r gallu i weithio o dan bwysau, gan gefnogi a chael cefnogaeth gan gydweithwyr mewn tîm bach.
- Digonedd o egni, brwdfrydedd, menter a hunangymhelliant.

- Y gallu i fod yn llysgennad effeithiol ar ran y Comisiwn a'i waith, gan ennyn brwdfrydedd eraill a meithrin consensws.
- Hyddysg mewn cyfrifiadura a hunangynhaliaeth weinyddol.
- Trwydded yrru lawn, gyfredol.

Byddai gwybodaeth dda am bolisïau ac arferion awdurdodau lleol a pholisïau cynllunio cenedlaethol yng Nghymru yn fanteisiol.

Byddai'r gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg o gymorth i ddeiliad y swydd ond nid yw'n hanfodol ar gyfer y rôl.

Disgrifiad o'r rôl fel y'i canfyddir ar yr adeg yr ysgrifennwyd a geir uchod, a gallai newid yn y dyfodol, mewn ymgynghoriad â deiliad y swydd, i adlewyrchu gofynion sy'n newid.

**Diwylliant ac ymddygiad**

Mae Comisiwn Dylunio Cymru wedi sefydlu a meithrin diwylliant datblygiadol, creadigol a cholegol cadarnhaol y mae wedi ymrwymo'n llwyr iddo.

Bydd holl aelodau'r tîm yn gweithredu fel llysgenhadon ar ran y Comisiwn yn eu rhinwedd broffesiynol o ddydd i ddydd, a drwy hyrwyddo gwaith Comisiwn Dylunio Cymru ar lwyfannau cyhoeddus, gan gynnwys drwy siarad yn gyhoeddus, mynychu digwyddiadau a chyfrannu mewn print, ar-lein ac ar y cyfryngau darlledu.

Bydd holl aelodau’r tîm yn cynnal ac yn arddangos gweledigaeth, nodau a gwerthoedd Comisiwn Dylunio Cymru yn ymarferol, gan drin cydweithwyr â pharch a phroffesiynoldeb.

Bydd holl aelodau’r tîm yn gweithredu yn unol â fframwaith a chynlluniau blynyddol Comisiwn Dylunio Cymru; codau ymddygiad ac eitemau eraill sydd wedi’u cynnwys yn eu llawlyfrau polisi a gweithdrefnau, gan ymddwyn mewn modd sy’n gymesur â chorff uchel ei barch, a ariennir gan arian cyhoeddus ac sy’n atebol i’r cyhoedd.

**<u>Comisiwn Dylunio Cymru</u>**

Mae Comisiwn Dylunio Cymru yn sefydliad cenedlaethol a sefydlwyd gan y Llywodraeth i hyrwyddo dylunio da ar gyfer yr amgylchedd adeiledig a hyrwyddo safonau uchel o ran pensaernïaeth, tirlunio a dylunio trefol yng Nghymru.

Ein gweledigaeth yw Cymru sy'n lle gwell.
Ein nod yw hyrwyddo dylunio da ar gyfer yr amgylchedd adeiledig a chyfleu ei fanteision.

Mae'r Comisiwn yn fach, yn ystwyth ac yn arbenigol. Mae ein tîm yn gweithio ledled Cymru i helpu i'w gwneud yn lle gwell, trwy ddylunio. Rydym yn hyrwyddo dylunio da ar draws sectorau, gan flaenoriaethu ansawdd yr amgylchedd adeiledig yng Nghymru ac ansawdd dylunio adeiladau, lleoedd a thir y cyhoedd.

Drwy ein gwasanaethau cynghori, gan gynnwys y Gwasanaeth Adolygu Dyluniadau cenedlaethol, digwyddiadau a hyfforddiant, rydym yn ymgysylltu â chydweithwyr ym meysydd pensaernïaeth, dylunio a chynllunio trefol a thirlunio, sy'n ymwneud â llunio cefn gwlad, dinasoedd, trefi a phentrefi Cymru. Rydym yn gweithio gydag ymarferwyr, cyrff proffesiynol, awdurdodau lleol, cleientiaid a chyrff comisiynu eraill, ym meysydd dylunio, cynllunio, adfywio, ynni a seilwaith, gan sicrhau bod ein harbenigedd ar gael ledled Cymru.

Caiff ein tîm bach, gweithredol ei ategu gan gapasiti ychwanegol ar ffurf gwirfoddolwyr arbenigol a benodir yn Banelwyr Adolygu Dylunio. Mae sgiliau a phrofiad y tîm cyfan yn cwmpasu eiddo masnachol, adfywio, pensaernïaeth, cynaliadwyedd, dylunio trefol a thirlunio, seilwaith ynni gan gynnwys ynni gwynt ar y tir/ar y môr, yn ogystal â pheirianneg, cynllunio a thrafnidiaeth.

**Prif delerau ac amodau:**

| | |
|---|---|
| **Teitl:** | Cynghorydd Dylunio |
| **Statws y Contract:** | Contract llawnamser<br>Mae'r swydd yn amodol ar gwblhau cyfnod prawf o dri mis yn foddhaol |
| **Yn atebol i'r:** | Prif Weithredwr |
| **Lleoliad:** | Comisiwn Dylunio Cymru |

| | |
|---|---|
| | Llawr 4, Adeiladau Cambrian, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd, CF10 5FL ac mewn lleoliadau ledled Cymru, yn ôl yr angen.<br>Bydd gofyn i ddeiliad y swydd weithio o swyddfa Comisiwn Dylunio Cymru yng Nghaerdydd o leiaf dridiau’r wythnos, wedi’u hategu gan drefniadau gweithio hybrid. |
| **Oriau gwaith:** | **37** awr yr wythnos. Bydd gofyn am rywfaint o hyblygrwydd ynghyd â'r parodrwydd i deithio ac aros dros nos, i ddiwallu anghenion busnes. |
| **Gwyliau Blynyddol:** | Wyth gŵyl gyhoeddus a phedwar diwrnod dewisol y flwyddyn yn ogystal ag uchafswm o 30 diwrnod y flwyddyn, yn amodol ar gytundeb ffurfiol ar benodiad. |
| **Dull talu:** | BACS ar y pymthegfed o bob mis<br>Pythefnos yn ddyledus, pythefnos ymlaen llaw.<br>Yn daladwy ar y diwrnod gwaith olaf sydd agosaf at y pymthegfed o'r mis os yw'n disgyn ar benwythnos neu ŵyl gyhoeddus. |
| **Tâl:** | **£40,000** y flwyddyn.<br>Dyfernir dyfarndaliadau yn y dyfodol yn unol â pholisi tâl Comisiwn Dylunio Cymru ac fel y'i pennir gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr. |
| **Cynllun Pensiwn:** | Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol |
| **Polisi Cyfle Cyfartal:** | Mae Comisiwn Dylunio Cymru wedi ymrwymo i gyfle cyfartal ym mhob agwedd o’u gwaith ac mae'r holl bersonél yn cyflawni eu dyletswyddau yn unol â'r ymrwymiad hwn a'n polisi. |

**Cyfnod rhybudd:** Cyflogwr – Tri mis
Gweithiwr – Tri mis

Mae Comisiwn Dylunio Cymru yn gweithredu polisi dim ysmygu llym. Darperir telerau ac amodau manwl pellach, polisïau sy'n ystyriol o deuluoedd, gweithio hyblyg ac ati yn y contract cyflogaeth ac maent yn cael eu hesbonio yn y Llawlyfr Staff.

Rhaid gwneud ceisiadau ar ffurf CV a llythyr eglurhaol dros e-bost at connect@dcfw.org
**Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 3pm ar 15 Medi 2026. Cynhelir cyfweliadau ar gyfer yr ymgeiswyr sydd wedi cyrraedd y rhestr fer ar 22/23 Medi 2026 yn swyddfa Comisiwn Dylunio Cymru yng Nghaerdydd.**

Comisiwn Dylunio Cymru yw enw masnachu DCFW LIMITED, Cwmni Cyfyngedig Preifat rhif: 04391072 sydd wedi'i ymgorffori yng Nghymru a Lloegr fel is-gwmni sy'n eiddo llwyr i Lywodraeth Cymru. Swyddfa Gofrestredig: Llawr 4, Adeiladau Cambrian, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd CF10 5FL